Byddem yn awgrymu ymddygiad sy'n achosi niwed i eraill, a fyddai'n cynnwys bwlio neu aflonyddu, ymhlieth y rhai yr ystyri eu bod yn y categori hwn.

Fodd bynnag, byddem yn anghytuno â'r cynnig bod unrhyw swydd wag yn cael ei llenwi gan yr ymgeisydd nesaf sydd ar gael ar restr gaeedig y blaid honno. Nid ydym yn credu y byddai disodli'r tramgywyddwr â'r ymgeisydd nesaf ar y rhestr yn helpu i adfer ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth. Nid ydym ychwaith yn meddwl y byddai'r cyhoedd yn teimlo bod gadael i'r blaid dan sylw dethol cynrychiolydd yn lle'r tramgywyddwr yn gwasanaethu cyflawniwr nac atebolrwydd. Mae'r ffaith bod pob isetholiad sydd wedi'i gynnal yn sgil adalw wedi gweld y sedd yn newid dwylo o ran plaid yn awgrymu bod y cyhoedd yn gweld cysylltiad rhwng ymddygiad yr unigolyn a'r blaid y maent yn ei chynrychioli.

Mae hefyd yn wir mewn rhai achosion bod yr ymddygiad sydd wedi arwain at ysgogi'r broses adalw'n rhywbeth y mae'r blaid wedi caniatáu iddo ddigwydd, naill ai trwy ddiwylliant o esgeuluso ymddygiad amhriodol neu gefnogaeth weithredol i Aelod er gwaethaf dyfarniad y Pwyllgor Safonau. Mae achos Owen Paterson yn San Steffan ac achos Michael Matheson yn Holyrood yn dangos y cyfyng-gyngor hwn. Felly ni ddylai fod yn bosibl i blaid barasiwtio'r ymgeisydd nesaf sydd ar gael i mewn heb i'r cyhoedd benderfynu a ydynt yn ystyried newid plaid mor bwysig â newid cynrychiolydd.

Os yw'r broses ar gyfer adalw'n cael ei chyflwyno yng Nghymru, dylai fod yn bosibl dewis plaid arall yn ogystal â chynrychiolydd newydd. Byddem yn awgrymu ystyried y broses a ddefnyddir ar gyfer isetholiadau yn ar gyfer llywodraeth leol yn yr Alban fel ffordd bosibl o sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd. Er nad yw'r etholiadau hyn wedi cael eu cynnal yn wreiddiol gan ddefnyddio'r un system bleidleisio gyfrannol ag a ddefnyddir ar gyfer etholiadau Senedd Cymru, maent yn cynnig ffordd o gynnal is-etholiad mewn ward aml-aelod.

Fel arall, os dechreuir y broses adalw a bod y trothwy ar gyfer pleidleiswyr sy'n dymuno gweld yr Aelod yn cael ei ddiarddel yn cael ei gyrraedd, yna byddai'r sedd yn parhau'n wag tan yr etholiad nesaf

Mae'r cwestiynau a ganlyn yn yr adran hon yn seiliedig ar oblygiadau ymarferol adalw, ac os nad ydych chi o'r farn y dylid cyflwyno system adalw, does dim rhaid ichi ateb y cwestiynau hyn.

### Hoffech chi ateb cwestiynau ar oblygiadau ymarferol adalw?

Hoffwn

Na hoffwn – ewch â fi i adran nesaf y cwestiynau

### Sbardunau ar gyfer proses adalw

2. Yn system adalw Tŷ'r Cyffredin, bydd AS yn cael ei adalw os bydd Tŷ'r Cyffredin, yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau, yn gorchymyn atal yr AS o'r Tŷ am o leiaf 10 diwrnod eistedd neu 14 diwrnod calendr.

Beth yw eich barn am ba mor hir y dylid atal Aelod o'r Senedd dros dro er mwyn ysgogi proses adalw?

- Llai na 10 diwrnod eistedd
- 10 diwrnod eistedd
- Mwy na 10 diwrnod eistedd
- Ni ddylai atal dros dro gychwyn proses adalw
- Dim barn
- Arall (rhowch fanylion)

### Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.

Mae archwiliad o brosesau adalw sy'n cael eu sbarduno yn San Steffan, yn ogystal â gwaharddiadau dros-dro a wnaed yn y Senedd Cymru a Senedd yr Alban, yn dangos bod y math o droseddau dan sylw'n amrywio o ran sylwedd a difrifoldeb.

Byddem yn awgrymu eglurder ynghylch pa sancsiynau sydd ar gael a sut y gellid eu rhoi ar waith, a fyddai'n darparu ar gyfer cyfiawnder naturiol ac yn gweithredu fel ataliad pe gallai Aelodau weld pa fath o gosbau a fyddai'n cael eu hystyried. Mae'n ymddangos yn ddoeth peidio â lleihau nifer y diwrnodau i lai na deg er mwyn sicrhau bod sancsiynau graddedig ar gael lle na fyddai'r camwedd yn cyfiawnhau deiseb adalw, ond ei fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau gwaharddiad dros-dro.

Er mwyn osgoi penderfyniadau pleidiol, rydym yn awgrymu bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn Senedd Cymru'n dilyn Pwyllgor Safonau San Steffan ac yn penodi aelodau lleyg i gynorthwyo gydag ymchwiliadau ac argymhellion ar gyfer sancsiynau.

Rydym hefyd yn awgrymu y dylai unrhyw bleidlais gan holl aelodau'r Senedd fod yn rhydd o system 'chwip' y pleidiau a bod unrhyw chwipio o'r fath ei hun yn destun ymchwiliad.

**3. Yn system adalw Tŷ'r Cyffredin, bydd AS yn cael ei adalw os yw, ar ôl dod yn AS, wedi'i gael yn euog o ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i ategu hawliad am dreuliau o dan Ddeddf Safonau Seneddol 2009 (darparu gwybodaeth y maent yn ei gwybod sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn ffordd faterol i gefnogi cais am lwfansau).**

Beth yw eich barn ynghylch a ddylai cadarnhau cwyn am gamddefnyddio treuliau neu lwfansau (h.y. torri Rheol 9 o'r Cod Ymddygiad), o bosibl ysgogi proses adalw?

- Dylai torri Rheol 9 ysgogi proses adalw yn awtomatig
- Ni ddylai torri Rheol 9 arwain at broses adalw
- Dylai ysgogi proses adalw fod yn opsiwn sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'w argymhell os caiff cwyn am dorri Rheol 9 ei chadarnhau
- Dim barn

Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.

Rydym yn gweld gwerth mewn ymagwedd gyson ar draws awdurdodaethau'r DU.

**4. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw sancsiynau os bydd Aelod yn gadael, yn ymuno neu'n newid grŵp gwleidyddol yn ystod tymor Senedd.**

Beth yw eich barn ynghylch a ddylai newid grwpiau gwleidyddol ysgogi prosesau adalw (h.y. symud o grŵp plaid A i grŵp plaid B o fewn tymor Senedd, neu symud o grŵp plaid A i eistedd yn annibynnol)? Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.

Tra bod Aelodau'n cael eu hethol ar blatfform plaid, unwaith y byddant yn cymryd eu seddau maent yn gwasanaethu i gynrychioli eu hetholwyr hyd eithaf eu gallu. Os ydynt

o'r farn y byddent yn gwneud hynny'n well fel aelod annibynnol neu aelod o grŵp plaid arall, ni chredwn y dylai hyn fod yn sail i gosb.

Fodd bynnag, os byddant yn dod yn annibynnol yn sgil cael eu gwahardd o'u plaid (neu ymddiswyddo gan ragweld gwaharddiad o'r fath) am reswm a fyddai hefyd yn torri'r côd ymddygiad, yna dylai'r broses arferol fod yn berthnasol.

## 5. Ar hyn o bryd nid oes sancsiwn os nad yw Aelod yn bresennol nac yn cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd, heb reswm da, am gyfnod estynedig.

Beth yw eich barn ynghylch a yw diffyg presenoldeb a chyfranogiad mewn trafodion, heb reswm da, am gyfnod o chwe mis neu fwy yn sbarduno prosesau adalw? Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.

Nid ydym yn ystyried bod diffyg presenoldeb ynddo'i hun yn achosi risg o lygredd neu fethiant o ran uniondeb. Fodd bynnag, efallai y bydd y pwylgor am fwrw golwg ar y broses yn Nhŷ'r Arglwyddi sy'n diarddel aelodau am beidio â mynchu.

Credwn ei bod yn rhesymol disgwyl mai dyletswyddau Aelod i'r Senedd a'r etholaeth yw eu prif flaenoriaeth. Pan fydd swyddogion etholedig yn treulio cryn dipyn o amser ar weithgaredd allanol, nid yw hyn yn rhoi'r argraff mai eu dyletswydd gyhoeddus yw eu blaenoriaeth gyntaf. Mae rhai o'r farn mai'r ymateb i feirniadaeth am ddal ail swyddi yw y gall dinasyddion eu pleidleisio allan yn yr etholiad nesaf. Dim ond bob pedair i bum mlynedd y cynhelir etholiadau, fodd bynnag, ac mae'n annhebygol y bydd ASCau yn ymgyrchu'n benodol am fandad i ddal y buddiannau hyn ar adeg etholiad. Yn yr un modd, nid yw hyn yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae unigolion yn derbyn swyddi allanol yn fuan ar ôl cael eu hethol yn ASC.

Rydym yn cefnogi rhagdybiaeth y gellir ei gwrthbrofi sy'n seiliedig ar derfyn amser i ddarparu eglurder a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod eu cynrychiolwyr etholedig yn gweithio iddynt hwy yn bennaf. Gallai'r terfyn amser hwn fod rhwng 5-10 awr yr wythnos, ar draws pob rôl, a gallai fod yn destun eithriadau llym. Dylai'r eithriadau ar gyfer mynd y tu hwnt i'r terfyn amser hwn fod dim ond ar gyfer:

- 1) cynnal cofrestriad proffesiynol, neu
- 2) gweithgaredd gwleidyddol neu ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Byddai'r cyntaf o'r rhain yn cynnwys cymwysterau meddygol a byddai'r olaf yn cynnwys dyletswyddau milwrol, gwasanaeth rheithgor neu ddyletswyddau bad achub.

6. Ar hyn o bryd, mae Aelodau o'r Senedd sy'n cael eu dyfarnu'n euog o drosedd ac sy'n cael eu dedfrydu i gyfnod o garchar, neu'n cael eu cadw'n gaeth, am 12 mis neu fwy yn cael eu hanghymhwys o rhag bod yn Aelodau neu'n ymgeiswyr. Yn system adalw Tŷ'r Cyffredin, bydd AS yn cael ei adalw os yw, ar ôl dod yn AS, wedi'i gael yn euog o drosedd a'i ddedfrydu i'w garcharu, neu ei gadw'n gaeth, am gyfnod o lai na 12 mis (gan gynnwys dedfrydau gohiriedig).

Beth yw eich barn ynghylch a ddylai Aelod o'r Senedd a geir yn euog o drosedd â dedfryd o lai na 12 mis fod yn destun deiseb adalw?  
**Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.**

Rydym yn gweld gwerth mewn ymagwedd gyson ar draws awdurdodaethau'r DU.

## 7. A ddylai fod unrhyw ysgogiadau eraill ar gyfer proses adalw?

Rydym yn gweld gwerth mewn ymagwedd gyson ar draws awdurdodaethau'r DU.

### Llofnodi deiseb

8. Yn system Tŷ'r Cyffredin, dim ond os ydynt o blaid adalw'r Aelod Seneddol y mae pleidleiswyr cymwys yn arwyddo'r ddeiseb. Ystyr hyn yw nad oes opsiwn i bleidleiswyr ddangos cefnogaeth i'r Aelod Seneddol aros yn ei swydd, ac wrth fynd i or saf bleidleisio, mae eu bwriad i arwyddo'r ddeiseb yn hysbys i eraill.

A ddylai'r ddeiseb adalw gynnwys opsiwn ar gyfer dangos cefnogaeth i'r Aelod sy'n cael ei adalw gadw ei sedd?

- Dylai
- Na ddylai
- Dim barn

**Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.**

Rydym yn gweld gwerth mewn ymagwedd gyson ar draws awdurdodaethau'r DU.

Yn ogystal, rydym o'r farn bod darparu ar gyfer arwydd o gefnogaeth yn peryglu mewnlifiad o arian a dylanwadau llygredig eraill i geisio effeithio ar yr ymgyrch adalw.

**9. Yn system Tŷ'r Cyffredin, os bydd 10 y cant o etholwyr cymwys yn llofnodi deiseb adalw, bydd isetholiad yn yr etholaeth honno a gall yr AS sy'n gadael sefyll yn yr etholiad hwnnw os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae Comisiynydd Safonau'r Senedd wedi tynnu sylw at y ffaith, pe bai'r trothwy'n cael ei osod ar yr un lefel ar gyfer proses adalw'r Senedd, y gallai 10 y cant o'r etholwyr gael gwared ar Aelod yn uniongyrchol, gan nad oes darpariaeth i ddisodli Aelodau o'r Senedd drwy is-etholiadau.**

**Beth yw eich barn chi am y trothwy llofnodion y dylai fod eu hangen er mwyn i ddeiseb ddiswyddo Aelod?**

Rydym yn cytuno bod hyn yn her; felly hefyd dichonoldeb cynnal deiseb adalw mewn etholaethau rhanbarthol mawr.

Rydym hefyd o'r farn nad yw dim ond cael gwared ar yr Aelod a gafodd ei adalw a chael rhywun yn ei le'n ddigonol. Byddai cyflwyno is-etholiad yn sgil hyn o leiaf yn datrys y penbleth o waharddiad yn cael ei sbarduno gan ddim ond 10% o'r etholwyr.

**10. Yn system Tŷ'r Cyffredin, gall pleidleiswyr cymwys llofnodi deiseb adalw ar leoliad mewn man llofnodi dynodedig, drwy'r post, neu drwy benodi rhywun yn ddirprwy i llofnodi'r ddeiseb ar eu rhan.**

**Beth yw eich barn ar sut y dylai pleidleisiwr cymwys allu llofnodi deiseb?**

- Ar leoliad
- Trwy'r post
- Trwy ddirprwy
- Arall (rhowch fanylion)
- Dim barn

**Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.**

Rydym yn gweld gwerth mewn ymagwedd gyson ar draws awdurdodaethau'r DU.

Ar wahân i fanteision ymarferol pleidleisio trwy'r post a phleidleisio trwy ddirprwy mewn etholaethau mawr, er mwyn i'r etholwyr allu cymryd rhan mewn mecanweithiau atebolrwydd fel adalw, mae'n hanfodol nad yw pobl yn cael eu heithrio o'r broses yn anfwriadol oherwydd anhawster i gael mynediad at gyfleoedd i llofnodi'n bersonol.

Byddai unrhyw gyfyngiad o'r fath mewn perygl o roi'r argraff o fod wedi'i sefydlu er budd yr Aelod sy'n destun y ddeiseb adalw. Os bydd llai o bobl yn gallu cymryd rhan, byddai'n llai tebygol y byddai'r Aelod yn cael ei ystyried wedi ei ddal i gyfrif. Byddai hyn yn tanseilio'r amcan o gyflwyno adalw, ac yn lle hynny byddai'n peri i'r cyhoedd amau ymhellach effeithiolrwydd mechanweithiau atebolrwydd

## Hyd y broses adalw

**11. Yn system Tŷ'r Cyffredin, mae gan etholwyr chwe wythnos i llofnodi deiseb adalw. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod mwyafrif y bobl sydd wedi llofnodi deisebau adalw yn gwneud hynny yn gynnar yn y cyfnod chwe wythnos. Mae pryderon wedi'u codi ynghylch ymarferoldeb darparu mannau arwyddo dynodedig am gyfnod o chwe wythnos.**

A ddylai'r ddeiseb adalw agor ar un diwrnod, ar draws nifer fwy o ardaloedd dynodedig, neu dros gyfnod llofnodi aml-wythnos mewn llai o ardaloedd dynodedig?

- Un diwrnod ar draws nifer fwy o ardaloedd dynodedig
- Cyfnod arwyddo aml-wythnos mewn llai o ardaloedd
- Arall (rhowch fanylion)
- Dim barn

**Os dylai'r ddeiseb fod ar agor am gyfnod llofnodi o sawl wythnos, am ba mor hir y dylai fod ar agor?**

Rydym yn gweld gwerth mewn ymagwedd gyson ar draws awdurdodaethau'r DU.

**12. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech chi eu codi ynghylch sut y gall etholwyr gael mynediad at y broses neu gymryd rhan ynddi?**

Fel y soniwyd uchod, rydym o'r farn y byddai cyflwyno aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn arf priodol i osgoi penderfyniadau pleidiol neu'r canfyddiad o benderfyniadau pleidiol. Gellid ystyried gwahodd sampl o etholwyr i wasanaethu fel aelodau ychwanegol o'r pwyllgor.

## System i Gymru

Mae gwaith cynnar y Pwyllgor wedi nodi dau opsiwn cychwynnol i'w hystyried:

**Opsiwn 1:** Mae deiseb adalw yn cael ei chynnal yn gofyn a ddylid adalw'r Aelod yn unig. Os bydd Aelod yn cael ei adalw, byddai'r ymgeisydd nesaf sy'n gymwys ac yn fodlon gwneud, o restr y blaid yr etholwyd yr Aelod a gafodd ei ethol arni, yn llenwi'r sedd wag. Mae'r dull hwn yn golygu y byddai llofnodi'r ddeiseb yn cael gwared â'r Aelod, yn hytrach nag arwain at is-etholiad yn yr etholaeth honno.

**Opsiwn 2:** Mae deiseb cadw neu ddiswyddo a disodli yn cael ei rhedeg, yn gofyn a ddylai'r Aelod aros yn ei le, neu gael ei ddiswyddo, gan osod yr ymgeisydd nesaf ar restr y blaid yn ei le (os yn bosibl). Byddai hyn yn ddarostyngedig i gyfnod ymgyrchu, gan ganiatáu cyfle i'r Aelod sy'n destun y broses 'adalw' amddiffyn ei sedd gyda'r etholwyr.

Gyda'r naill opsiwn neu'r llall, gellid llenwi swyddi gwag yn gyflym a gellid cynnal cymesuredd canlyniad yr etholiad diwethaf. Fodd bynnag, ni fyddai Aelodau sy'n cael eu hethol yn annibynnol, neu'r rheini a etholwyd i gynrychioli pleidiau gwleidyddol nad oes ganddynt unrhyw ymgeiswyr ar eu rhestrau, yn cael eu disodli. Gallai hyn effeithio ar gymesuredd y Senedd.

### 13. Beth yw eich barn ar y ddau opsiwn hyn

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw eich ateb i tua 500 gair)

Amcan adalw yw sicrhau proses ddisgyblu gadarn sy'n cynnwys y cyhoedd ac sy'n caniatáu iddynt gyfrannu at y penderfyniad.

Er ein bod yn gweld atyniad proses gyflym, ni all atebolrwydd gael ei ruthro. Er mwyn i'r cyhoedd gael eu cynnwys yn ddigonol, rydym o'r farn bod is-etholiad yn ganlyniad hanfodol deiseb adalw Iwyddiannus (hynny yw, bod y ddeiseb yn cefnogi adalw'r Aelod).

Byddai diogelu cymesuredd canlyniad yr etholiad diwethaf ar draul tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system a'r ddarpariaeth atebolrwydd dybiedig. Ni fydd disodli'r Aelod a adalwyd â'r ymgeisydd nesaf ar restr yr un blaidd yn sicrhau bod y cyhoedd yn gweld cyflawnder yn cael ei gynnwl.

Fel y nodwyd yng Nghwestiwn 1, rydym o'r farn y dylai fod yn ofynnol i'r blaidd a'r unigolyn ymateb i fethiannau o ran uniondeb. Os mai'r unig ôl-effeithiau i'r blaidd yw newid personél, mae hyn yn atal dadansoddiad o'r diwylliant posibl o fewn y blaidd sydd wedi galluogi'r ymddygiad amhriodol i ddigwydd. Mae hefyd yn rhwystro dysgu gwersi o'r digwyddiadau a arweiniodd at yr adalw, gan y blaidd (nad yw wedi dioddef unrhyw ganlyniadau) a'r senedd gyfan (sydd hefyd yn gweld dim effaith canfyddadwy).

## 14. A oes system arall y gellid ei harchwilio?

(Byddwn yn ddiolchgar pe galleg chi gadw eich ateb i tua 500 o eiriau)

Byddem yn awgrymu archwilio sut y cynhelir isetholiadau yn etholiadau lleol yr Alban. Er nad yw'n system bleidleisio y gellir ei chymharu'n uniongyrchol, mae'r angen i ddisodli aelod o ward amlaelod yn gymaradwy. Nid ydym yn gweld unrhyw broblem o ran defnyddio systemau pleidleisio cyfrannol ychydig yn wahanol ar gyfer gwahanol agweddau ar y broses bleidleisio.

### Anghymhwysô

Mae'n rhaid i berson fodloni cymwysterau penodol i fod yn gymwys i fod yn Aelod, neu i sefyll etholiad i'r Senedd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn adran 16 ac Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac maent yn cynnwys meinu prawf fel oedran, dinasyddiaeth, peidio â bod wedi eich cofrestru ar gofrestr etholiadol yng Nghymru, statws methdaliad, euogfarnau neu ddedfrydau troeddol penodol, aelodaeth o ddeddfwrfeydd eraill yn y DU, a dal rhai swyddi penodol.

**15. Mae Aelod wedi'i anghymhwysô rhag bod yn Aelod o'r Senedd os yw, ar ôl cael ei ethol, yn cael ei gollfarnu o drosedd ac yn cael ei ddedfrydu i garchar neu ei gadw'n gaeth am 12 mis neu fwy. Rydym wedi clywed rhai awgrymiadau y dylid gostwng hynny, er enghraifft, i chwe mis.**

**Beth yw eich barn am hyd y ddedfryd o garchar a ddylai ysgogi anghymhwysô?**

Rydym yn gweld gwerth mewn ymagwedd gyson ledled y DU.

**16. Oni bai am dwyllo, y cyfeirir ato yn yr adran nesaf, a oes unrhyw seiliau eraill a ddylai arwain at anghymhwysô fel Aelod o'r Senedd?**

Mae TI-UK yn cefnogi argymhelliaid Comisiwn y Gyfraith i gyflwyno troedd newydd ar gyfer llygredd mewn swyddi cyhoeddus. Rydym o'r farn y dylai fod troedd statudol newydd, glir ar gyfer llygredd mewn bywyd cyhoeddus sy'n cynnwys camddefnydd o swyddogaeth a masnachu mewn dylanwad, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n camddefnyddio pŵer yn ddifrifol er budd preifat yn gallu cael eu dal i gyfrif yn droeddol. Fel troedd byddai hyn, pe bai dedfryd sy'n bodloni'r gofynion yn cael ei gosod, yn arwain at anghymhwysô rhag bod yn aelod o'r Senedd.

## Gwneud datganiadau ffug neu dwyllodrus gan Aelodau ac ymgeiswyr

Mae'r Cod Ymddygiad eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau fod yn onest, a gweithredu'n onest. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi clywed awgrymiadau y dylai Aelodau ac ymgeiswyr gael eu anghymwyso os ydynt yn gwneud datganiadau ffug neu dwyllodrus yn fwriadol, gyda'r bwriad o gamarwain.

Mae gwaith cynnar y Pwyllgor wedi nodi tri opsiwn cychwynnol i'w hystyried. Mae mwy o fanylion am yr opsiynau hyn yn y ddogfen ymgynghori:

<https://busnes.senedd.cymru/documents/s152624/Ymchwiliad%20i%20Atebolrwydd%20Aelodau%20Unigol%20or%20Senedd%20-Ymgynghoriad.pdf>

**Opsiwn 1:** Creu trosedd o dwyll, y bydd yr heddlu yn ymchwilio iddi a'i rhoi ar brawf gerbron y llysoedd troseddol. Byddai pobl a gafwyd yn euog yn cael eu anghymwyso.

**Opsiwn 2:** Creu trosedd sifil o dwyll, a fyddai'n cael ei hymchwilio gan gorff presennol megis yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, a Thribiwnlys Cymreig annibynnol, megis Bwrdd Dyfarnu Cymru.

**Opsiwn 3:** Diwygio'r Cod Ymddygiad presennol i wahardd, yn fwy pendant, dweud celwydd neu dwyllo, a chryfhau'r sancsiynau posibl. Byddai Comisiynydd Safonau'r Senedd yn ymchwilio i achosion honedig o dorri rheolau, ac, os cânt eu cadarnhau, byddent yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Senedd. Gallai ymestyn yr opsiwn hwn i gynnwys ymgeiswyr yn ogystal ag Aelodau arwain at oblygiadau ymarferol sylweddol.

### 17. Beth yw eich barn ynghylch a ddylai datganiadau ffug neu dwyllodrus gan Aelodau o'r Senedd, neu ymgeiswyr ar gyfer dod yn Aelodau, fod yn sail dros anghymwyso?

- Sail dros anghymwyso ar gyfer Aelodau yn unig
- Sail dros anghymwyso ar gyfer ymgeiswyr yn unig
- Sail dros anghymwyso ar gyfer Aelodau ac ymgeiswyr
- Nid yw'n sail dros anghymwyso
- Dim barn

**Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb. Os ydych chi wedi nodi y dylid cynnwys ymgeiswyr, nodwch ar ba bwynt y credwch y dylai ymgeiswyr fod yn agored i atebolrwydd posibl.**

(Byddem yn ddiolchgar pe galleg chi gadw'ch ateb i tua 500 o eiriau).

Yn TI-UK credwn fod y dirywiad yn ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion yn uniongyrchol gysylltiedig â methiannau uniondeb a diffyg atebolrwydd canfyddedig. Rydym o blaid cryfhau systemau atebolrwydd, gwella tryloywder o ran sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a bod gwleidyddion yn cael eu dwyn i gyfrif; rydym yn gweithio i amlygu methiannau o ran cynnal y safonau uniondeb hynny mewn bywyd cyhoeddus. Cefnogwn Egwyddorion Nolan yn llwyr a chredwn fod anonestrwydd bwriadol yn tanseilio gwleidyddiaeth yn ei hanfod.

Mae TI-UK yn ystyried bod ceisio dyfarnu am ddweud celwydd neu dwyll bwriadol yn debyg i daflu'r babi allan gyda dŵr y bath. Ni ddylai llond llaw o dramgyddwyr cyson y mae eu celwyddau'n cael eu gwirio'n rheolaidd sbarduno system lle mae pob gwleidydd yn ail-ystyried pob datganiad a wnânt. Byddai gwahardd twyll yn cyflwyno problemau ymarferol o ran profi bwriad; ni fyddai'n llwyddo i wella ymddiriedaeth mewn gwleidyddion, a phe bai modd mynd â'r mater i gyfraith, gallai beryglu defnydd maleisus yn debyg i Ymgryfreitha Strategol yn erbyn Cyfranogiad Cyhoeddus (SLAPP).

Rydym hefyd yn ymwybodol bod dod â'r llysoedd i mewn i reoleiddio busnes y Senedd, gan gynnwys sut y caiff rheolau safonau eu cynnal, yn codi materion yn ymwneud ag egwyddor gyfansoddiadol ymreolaeth y Senedd. Cafodd hyn ei ailgadarnhau yn ddiweddar yn nyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop yn achos Owen Paterson.

Rhan fawr o'r broblem o ddirywiad mewn ymddiriedaeth yw bod pobl yn meddwl bod y system wedi'i rigo o blaid rhai dros eraill, nad yw rheolau'n cael eu gweithredu'n gyfartal, ac nad yw'r rhai sy'n torri rheolau'n cael eu dwyn i gyfrif. Mae cyflwyno trosedd a fyddai'n anodd ei phrofi ac yn anodd ei herlyn yn peri risg o ychwanegu mecanwaith arall lle nad yw'r cyhoedd yn gweld unrhyw atebolrwydd am y drosedd ganfyddedig neu honedig.

Awgrymwn y byddai sicrhau bod côd ymddygiad presennol ASC yn cael ei gynnal, gydag eglurder ynghylch sut y bydd sancsiynau'n cael eu rhoi ar waith, a dod ag aelodau lleyg i mewn i brosesau ymchwilio a gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn gam gweithredu mwy cymesur. Yn wir, gellir dadlau bod systemau cyfredol yn weithredol, ond mae angen iddynt fod yn fwy pwerus ac i fecanweithiau atebolrwydd presennol gael eu defnyddio'n fwy effeithiol.

Beth yw celwydd?

Mae diffinio celwydd, yn enwedig mewn cyd-destun gwleidyddol yn heriol.

Mae gwirionedd y gosodiad 'Chefais i ddim perthynas rywiol â'r ddynes honno' yn dibynnu'n llwyr ar y dehongliad o 'berthynas rywiol', h.y. mae'n dibynnu ar ddealltwriaeth yr unigolyn o'r term.

Mae honni bod un person yn gyfrifol am rannu sgwrs trwy neges destun ar ffôn symudol, sydd wedyn yn gwadu eu bod wedi gwneud hynny'n awgrymu bod rhywun yn dweud celwydd. Neu fel arall, nid y weithred o rannu'r sgwrs yw'r 'cyfrifoldeb' ond bod hynny wedi'i wneud yn bosibl, felly mae'r ddau ddatganiad yn wir.

Mae gwleidyddiaeth yn seiliedig ar y math hwn o chwarae ar eiriau a dehongliad o feithiau. Mae ceisio deddfu ar gyfer y defnydd o iaith, tra hefyd yn darparu ar gyfer dehongliadau gwahanol yn seiliedig ar ymlyniad gwleidyddol, yn ymddangos yn amhosibl. Mae hefyd yn agored i gamdriniaeth, a gallai greu mwy o anfodlonrwydd ymhlieth y cyhoedd wrth i bobl weld beth maent yn canfod i fod yn gelwydd yn mynd yn ddigosb.

#### Monitro

O ystyried cymaint o drafod sy'n digwydd y tu mewn i'r Senedd, heb sôn am yn y cyfryngau, ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn fforymau eraill, byddem yn awgrymu ei bod yn amhosibl monitro ar gyfer twyll possibl. Mewn gwirionedd, dim ond sefyllfaoedd a fyddai'n agored i chwarae gemau gwleidyddol fyddai'n cael eu monitro a'u herio. Byddai'r rhai sydd â buddiant preifat o ran p'un a ddangoswyd bod datganiad yn anones yn gallu neilltuo adnoddau lle byddent yn elwa o hynny. Byddai'r rhai heb adnoddau i amddiffyn rhag cyhuddiadau anghyfiawn yn cael eu distewi.

#### Ymgeiswyr

Mae mynediad i swyddi etholedig eisoes yn llawn rhwystrau sy'n atal am rywiaeth o unigolion rhag ymgeisio am swyddi gwleidyddol. Os yw ymgeiswyr mewn perygl o wynebu camau cyfreithiol, byddai hyn yn rhwystr arall. Rydym yn gwrthwynebu unrhyw estyniad o'r côd ymddygiad i ymgeiswyr.

### 18. Pe bai gwneud datganiadau ffug neu dwyllodrus yn sail i waharddiad, beth yw eich barn ar unrhyw risgiau a allai godi (megis y posibilrwydd o wneud cwynion maleisus yn erbyn Aelodau), effaith risgiau o'r fath, a sut y gellir lliniaru unrhyw risgiau o'r fath?

#### Camau cyfreithiol maleisus

Mae'r bygythiad o gamau cyfreithiol yn arf sy'n agored i gael ei gam-drin gan y rheini â phocedi dwfn sy'n dymuno tawelu trafodaeth er eu lles eu hunain. Fel y dangosir gan effaith iasoer SLAPP, bydd y rhai sy'n ceisio atal pobl rhag siarad gwirionedd yn defnyddio adnoddau ariannol i dawelu'r sawl sy'n eu herio. Yn aml nid oes gan achosion SLAPP fawr o obaith o lwyddo pe baent yn cyrraedd llys barn, ond nid ennill

achos yn y llys yw'r amcan. Yn hytrach, mae unigolion cyfoethog yn cyflogi cyfreithwyr arbenigol i anfon llythyrau sy'n bygwth camau enllib yn erbyn newyddiadurwyr a chymdeithas sifil sy'n cyhoeddi adroddiadau cyfreithlon, er budd y cyhoedd amdanynt. Mae'r bygythiadau cyfreithiol hyn a'r galwadau am iawndal enfawr yn aml yn ddigon i rwystro cyhoeddi erthyglau a straeon, ond os nad ydyn nhw, y cam nesaf yw ymestyn gweithdrefnau cyn yr achos am gyhyd ag y bo modd. Nid yw'n anodd dychmygu'r un tactegau'n cael eu defnyddio i wneud cyhuddiad bod datganiadau'n ffug neu dwyllodrus.

(Am ragor ar SLAPPs gweler <https://fpc.org.uk/publications/london-calling-the-issue-of-legal-intimidation-and-slapps-against-media-emanating-from-the-united-kingdom/>)

#### Tarddiad y datganiad ffug

Wrth ystyried tarddiad datganiad anonest, mae risg amlwg y gallai pobl nad ydynt yn dal swydd wleidyddol ond sy'n gweithio mewn gwleidyddiaeth a pholisi ganfod eu hunain mewn perygl o fod yn gyfrifol am anwiredau honedig. Gallai hyn gael ei ddefnyddio'n faleisus gan y rhai sy'n ceisio tanseilio ymgyrchwyr dros newid polisi. Hyd yn oed heb falais, byddai baich y cyfrifoldeb o wybod bod y cyhuddiad o dwyll ar gael yn peri lefel o straen ychwanegol ar unigolion sydd ond yn weithwyr cyflogedig i wleidyddion, llywodraeth neu randdeiliaid.

Os mai slogan ymgyrch gan blaid wleidyddol yw'r datganiad anonest honedig, pwy sy'n gyfrifol am y celwydd? A ddylai pawb sy'n ailadrodd y celwydd gael eu dal yn atebol, neu dim ond y person a'i creodd yn wreiddiol? Beth os nad oes gan y person hwnnw unrhyw rôl wleidyddol?

Os daw'r twyll honedig i fodolaeth oherwydd sesiwn frifio gan y gwasanaeth sifil, neu adroddiad ar gyfer rhanddeiliaid, neu ymchwil gan aelod staff seneddol, pwy sy'n gyfrifol am yr anwiredd?

Yn yr un modd, sut y byddai rhywun yn darparu ar gyfer dewisiadau polisi? Ai celwydd neu ddewis yw 'roedd yn rhaid i ni gadw'r cap dau blentyn'? Mae'n ymddangos yn amlwg mai dewis polisi yw hwn, ond gellir dadlau pe gallech gyfiawnhau dewis gwahanol, yna pam na all y datganiad fod wedi'i fwriadu i dwyllo?

Os byddwch yn dechrau eithrio'r mathau hyn o ddeunyddiau, y risg yw na fydd y cyhoedd yn gweld dilysrwydd y drosedd. Os byddwch chi'n eu gadael yn agored i gyhuddiad o dwyll, mae'n creu sefyllfa mor ddryslyd fel bod y nod o wella tryloywder nid yn unig heb ei fodloni, ond mae yna berygl o greu dryswch pellach.

**19. Mae adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod datganiadau a wneir yn ystod trafodion y Senedd yn hollol freintiedig at ddibenion difenwi. Mae adran 43 yn darparu fod datganiadau a wneir yn ystod trafodion y Senedd wedi'u hamddiffyn, i raddau, rhag camau cyfreithiol ar gyfer dirmyg llys.**

**Beth yw eich barn ynghylch a allai unrhyw waharddiad ar wneud datganiadau ffeithiol ffug neu dwyllodrus arwain at ganlyniadau i'r 'breintiau' hyn?**

Amcan braint seneddol yw caniatáu i drafodaethau gael eu cynnal heb ofni camau cyfreithiol. Mae gwrtthdaro uniongyrchol rhwng creu trosedd a allai fod yn destun achos cyfreithiol, a fyddai'n cynnwys geiriau a lefarwyd yn y senedd ac amddiffyn braint seneddol.

**20. A fyddai cyflwyno trosedd neu system sancsiwn sifil yn arwain at unrhyw faterion hawliau dynol, er enghraift mewn perthynas â hawliau rhyddid mynegiant (Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) a rhyddid i sefyll mewn etholiad (Erthygl 3 o Protocol Rhif 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – Hawl i etholiadau rhydd)?**

Mae penderfyniad diweddar gan Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Paterson v. y Deyrnas Unedig yn darparu rhai canllawiau defnyddiol mewn perthynas â gweithrediad y cynnig i gyflwyno sancsiwn troseddol neu sifil am dorri rheolau safonau seneddol.

Byddem hefyd yn tynnu sylw'r Pwyllgor at baragraff 52 o'r penderfyniad hwnnw sy'n datgan:

Mae'r Llys yn nodi bod y rheolau ynghylch gweithrediad mewnol y Senedd (San Steffan) yn enghraift o egwyddor gyfansoddiadol sefydledig ymreolaeth y Senedd. ... Yn unol â'r egwyddor hon, a gydnabyddir yn eang yn y Gwledydd hynny sy'n Aelodau o Gyngor Ewrop, mae gan y Senedd yr hawl, gan eithrio pwerau eraill ac o fewn terfynau'r fframwaith cyfansoddiadol, i reoleiddio ei materion mewnol ei hun, megis, ymhliith pethau eraill, ei threfniadaeth fewnol, cyfansoddiad ei chyrff a chynnal trefn dda yn ystod dadleuon. Mae'n amlwg bod ymreolaeth y Senedd yn ymestyn i bŵer y Senedd i orfodi rheolau sydd â'r nod o sicrhau bod busnes seneddol yn cael ei gynnal yn drefnus. Cyfeirir at hyn weithiau fel 'ymreolaeth awdurdodaethol y Senedd'.

Mae hyn yn atgyfnerthu'r egwyddor gyfansoddiadol o ymreolaeth y Senedd ac na ddylai'r llysoedd ymwneud â rheoleiddio busnes y Senedd, gan gynnwys sut y cynhelir rheolau sy'n ymwneud â safonau.

## 21. Beth yw eich barn gyffredinol ar y tri opsiwn a amlinellir uchod (mae cwestiynau manylach ar faterion penodol wedi'u nodi isod)? A oes unrhyw opsiynau eraill a fyddai'n fwy priodol neu effeithiol?

Yn ogystal â bod yn groes i egwyddor gyfansoddiadol ymreolaeth y Senedd, ni fyddai'r un o'r opsiynau a allai arwain at achos llys (opsiynau 1 a 2) yn mynd i'r afael â'r broblem graidd o ddirywiad yn ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion, ac yn wir gallai ddwysáu difaterwch y cyhoedd trwy greu polisi na ellir ei weithredu.

Os daw'r Pwyllgor i'r casgliad y dylai gwneud datganiad ffug neu dwyllodrus fod yn drosedd benodol, byddem yn rhybuddio'n gryf yn erbyn unrhyw gosb gyfreithiol, boed troseddol neu sifil.

Gallwn weld rhinwedd mewn cryfhau'r côd ymddygiad a chyhoeddi'r sancsiynau sydd ar gael, ond byddem yn annog peidio â nodi bod gwneud datganiad sy'n anwiredd neu'r gamarweiniol rywsut yn fwy difrifol na gweithredoedd sy'n peri niwed uniongyrchol.

Felly, os yw gwneud datganiad sydd naill ai'n gelwydd neu a fwriadwyd i gamarwain yn cael ei ychwanegu at y côd ymddygiad, byddem yn awgrymu y dylai'r bwriad i achosi niwed wrth wneud y datganiad fod o'r safon ofynnol i brofi bod y côd wedi'i dorri.

## 22. A ddylai gwneud datganiad ffug neu dwyllodrus gael ei wneud yn drosedd neu gael ei wneud yn destun sancsiynau sifil?

- Trosedd
- Sancsiynau sifil
- Dim barn

Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb.

Ni ddylid greu trosedd o wneud datganiad ffug neu dwyllodrus, na'i wneud yn destun sancsiynau sifil am y rhesymau a amlinellwyd uchod. Ni fyddai hynny'n cyflawni unrhyw fudd cyhoeddus. Ni fyddai'n bodloni'r amcanion a nodir yn y cynnig, ac mae perygl y byddai'r cyhoedd yn fwy anfodlon â mesurau atebolrwydd. Byddai hefyd yn agored i gael ei gam-drin, gan danseilio bywyd gwleidyddol ymhellach a gwneud gwleidyddion

yn agored i fympwy'r cyfoethog sydd ond am greu mantais iddyn nhw eu hunain, yn hytrach na lles y cyhoedd yn gyffredinol.

**23. Beth yw eich barn am natur proses farnwrol annibynnol y dylid ei defnyddio pe bai opsiwn 2 yn cael ei ddilyn (h.y. sancsiwn sifil yr ymchwilir iddo gan gorff ymchwiliol presennol megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu Dribiwnlys Cymreig annibynnol)?**

Nid ydym yn ystyried bod angen creu sancsiwn sifil na sefydlu corff ymchwilio newydd ar gyfer y broses o ddwyn aelodau i gyfrif.

Fodd bynnag, gellid gwella'r broses bresennol a ddefnyddir gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd, gyda phenderfyniadau ar sancsiynau'n cael eu cymryd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'u trafod gan y Senedd lawn. Er mwyn osgoi gwleidyddion yn meddiannu proses y pwylgor, rydym yn argymhell bod y Senedd yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau yn San Steffan ac yn penodi aelodau lleyg. Dylai'r aelodau lleyg hyn bob amser fod yn rhan o'r gwaith o ystyried cwynion a sancsiynau sy'n effeithio ar Aelodau'r Senedd.

Dylid egluro a chyhoeddi sancsiynau posibl. Dylid osgoi cosbau ad hoc. Bydd hyn yn rhoi hyder bod sancsiynau ar gael sy'n ymddangos yn gymesur, gyda'r tramgwyddo mwyaf dybryd yn destun sancsiynau mwy difrifol. Dylai hyn hefyd helpu i atal camweddau a chynorthwyo unrhyw broses benderfynu, gan y byddai cosb ddisgwylledig glir.

**24. Os bydd y datganiadau ffug neu dwyllodrus sy'n cael eu gwneud yn ddarostyngedig i gosb sifil, pa safon prawf fyddai fwyaf priodol – y safon sifil (h.y. 'yn ôl pwysau tebygolrwydd') neu'r safon droseddol (h.y. 'y tu hwnt i amheuaeth resymol')? Er nad yw'n gyffredin, bu achosion lle mae cyrff disgynblu proffesiynol wedi gweithredu i'r safon droseddol.**

- Safon sifil**
- Safon droseddol**
- Dim barn**

Ni ddylai datganiadau twyllodrus fod yn destun cosb sifil neu droseddol.

Fodd bynnag, mae TI-UK yn cefnogi argymhelliaid Comisiwn y Gyfraith i gyflwyno trosedd newydd ar gyfer llygredd mewn swyddi cyhoeddus. Rydym o'r farn y dylai fod

trosedd statudol newydd, glir ar gyfer llygredd mewn bywyd cyhoeddus sy'n cynnwys camddefnydd o swyddogaeth a masnachu mewn dylanwad, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cam-drin pŵer yn ddifrifol er budd preifat yn gallu cael eu dal i gyfrif yn droseddol.

Rydym hefyd o'r farn y byddai cofrestr lobio gynhwysfawr ochr-yn-ochr â datgeliadau Gweinidogol manylach yn galluogi craffu cyhoeddus ar y rheini sy'n ceisio dylanwadu ar ddatganiadau a wneir gan wleidyddion. Fel y nodwyd uchod, mae'r twyll neu'r datganiad camarweiniol fel arfer â'r nod o guddio rhywbeth neu i greu mantais. Byddai gwybod pwy y mae'r ASC wedi bod yn cyfarfod â nhw a beth sy'n cael ei drafod yn helpu i nodi ffynhonnell, neu'r rheswm dros ddatganiadau y gallai gwleidyddion eraill neu'r cyhoedd eu hystyried yn gamarweiniol

## 25. Pe bai opsiwn 3 yn cael ei ddilyn (h.y. cryfhau'r Cod Ymddygiad presennol a sancsiynau), beth yw eich barn ar y mesurau a'r mecanweithiau a allai fynd i'r afael â thwyll neu ddatganiadau ffug? Er enghraifft, trwy weithdrefnau safonau presennol neu fecanweithiau adalw posibl?

Mae gonestrwydd eisoes yn un o ofynion y côd ymddygiad. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod y mecanweithiau atebolwydd presennol yn addas i'r diben, yn hytrach na chyflwyno datrysiaid sy'n tynnu sylw a fyddai'n anodd ei weithredu ac nad oes digon o dystiolaeth ei fod yn gallu mynd i'r afael â'r broblem y mae'n honni y gall ei datrys.

Os daw'r Pwyllgor i'r casgliad, yn ogystal â mynnu gonestrwydd, y byddai gwahardd twyll neu ddatganiadau ffug yn benodol yn ychwanegu gwerth at gynnal uniondeb mewn bywyd cyhoeddus, yna byddem yn argymhell diwygio'r côd ymddygiad i ddarparu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, byddem yn parhau i fod yn wyliadwrus o ran sut y gellid gweithredu darpariaeth o'r fath yn y byd gwleidyddol, ac fel y nodwyd uchod byddem yn annog pwyll wrth ddynodi bwriad i gamarwain fel rhywbeth mwy difrifol nag agweddau eraill ar y côd.

## 26. Os cyflwynir gwaharddiad, pa hyd fyddai'n briodol ar gyfer y gwaharddiad? Er enghraifft, a ddylai fod cyfnod penodol o anghymhwys, neu gyfnod (o fewn ystod benodol) i'w bennu fesul achos, fel bod unrhyw amgylchiadau lliniaru a allai leihau'r cyfnod o anghymhwys yn cael eu hystyried?

Gallwn weld rhywfaint o werth mewn datgymhwys o'r Senedd fel sancsiwn sydd ar gael. Byddai eglurder o ran sancsiynau posibl, a sut y byddent yn cael eu rhoi ar waith,

yn darparu tryloywder i Aelodau a'r cyhoedd. Gallai dynodi'r sancsiynau y gellid eu rhoi ar waith hefyd helpu i atal unigolion rhag camymddwyn.

Fodd bynnag, er mwyn atal y sancsiynau hyn rhag cael eu penderfynu ar sail plaid, argymhellir bod y Senedd yn cyflwyno aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad er mwyn cynorthwyo ag unrhyw ymchwiliad i achosion honedig o dorri amodau ac argymhell sancsiynau.

Nid ydym yn cytuno y dylai gwneud datganiadau ffug neu dwyllodrus fod yn destun unrhyw sancsiynau ar wahân neu'n ychwanegol i'r rhai sydd ar gael pe canfyddir bod Aelod wedi gweithredu'n groes i'r côd ymddygiad.

## 27. Pa sancsiynau, ac eithrio anghymhwys, a allai fod yn gosb briodol am wneud datganiadau ffeithiol ffug neu dwyllodrus?

Mae angen eglurder ar yr ystod o sancsiynau sydd ar gael os canfyddir bod Aelodau wedi torri'r côd ymddygiad er mwyn sicrhau cyfiawnder naturiol. Nid ydym yn ystyried bod cyflwyno trosedd ar wahân o wneud datganiadau ffug neu dwyllodrus yn ychwanegu gwerth at y côd ymddygiad. Os daw'r Pwyllgor i'r casgliad bod gwerth mewn cyfeirio'n benodol at wneud datganiad ffug neu dwyllodrus yn y côd ymddygiad, dylai'r sancsiynau fod yn gymesur â gweithredu'n groes i agweddu eraill ar y côd ymddygiad.

Byddem yn awgrymu, os caiff y côd ymddygiad ei ymestyn yn y modd hwn, y dylai unrhyw drosedd honedig o wneud datganiad ffug neu dwyllodrus gynnwys ymchwiliad i pam y gwnaed y datganiad ffug hwnnw. Byddem yn pryderu y byddai dim ond cosbi'r celwydd yn osgoi trafodaeth ac archwiliad o'r rhesymau dros yr anonestrwydd (neu'r cyhuddiad o hynny).

## 28. Pa amddiffynfeydd ddylai fod ar gael i honiad o dwyll?

Nid ydym yn ystyried bod cyflwyno trosedd o wneud datganiad ffug neu dwyllodrus yn fesur defnyddiol nac ymarferol.

Fodd bynnag, os cyflwynir trosedd o dwyll, dylai fod yn ofynnol dangos mai bwriad y twyll oedd achosi niwed. Amddiffyniad felly fyddai nad oedd y twyll wedi'i fwriadu i beri niwed, neu ei fod wedi methu â pheri niwed. Dylai tynnu unrhyw ddatganiad yn ôl a chywiro'r cofnod atal unrhyw gamau pellach rhag cael eu cymryd mewn perthynas â'r datganiad twyllodrus honedig.

**29. Rhowch unrhyw farn sydd gyda chi ar y rhngweithio rhwng trafodion ar gyfer gwneud datganiadau anwir neu dwyllodrus (boed yn sifil neu'n drosedol) â'r rheolau a nodir yng Nghod Ymddygiad Aelodau o'r Senedd sydd eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau weithredu'n onest bob amser.**

Byddem yn cwestiynu a ganfuwyd bod Côd Ymddygiad Aelodau'r Senedd yn amddiffyniad annigonol i sicrhau bod Aelodau'n bodloni'r safonau gofynnol o uniondeb mewn bywyd cyhoeddus. Os oes prawf pendant bod Aelodau'n methu â chadw at y côd ymddygiad, neu nad yw'n cyflawni'r diben o ddwyn Aelodau i gyfrif, yna dylid cryfhau'r côd a'i brosesau yn eu cyfanrwydd yn hytrach na thynnu sylw at un agwedd.

Mae gwneud un agwedd ar y côd ymddygiad yn fater y gellir ei ddwyn ger bron llys neu sy'n destun sancsiynau ar wahân neu ychwanegol yn awgrymu bod y gweddill yn llai pwysig.

**30. Rhowch unrhyw farn sydd gyda chi ar y goblygiadau o ran adnoddau i gyrff neu gyrrf presennol a allai gael eu creu i ymchwilio a phenderfynu ar gwynion yngylch datganiadau ffleithiol ffug neu dwyllodrus.**

Rydym yn rhagweld y gallai hyn greu nifer o goblygiadau o ran adnoddau gyda chostau i bwrs y wlad; byddai'n tynnu sylw oddi wrth faterion pwysicach eraill, byddai yna risg o drosglwyddo bai i aelodau staff iau, ac effaith andwyol ar gynghori a briffio gan randdeiliaid.

Os bydd gwneud datganiad ffug neu dwyllodrus yn drosedd y gellir ei dwyn ger bron llys, mae'n anochel y bydd goblygiadau o ran faint o amser yr heddlu y byddai ymchwiliad yn ei gymryd. Byddai hefyd yn clymu amser llys pe bai'r broses yn rhedeg ei chwrs. Gwyddom nad oes gan y naill na'r llall o'r sefydliadau hyn amser nac adnoddau i'w sbario.

Rydym hefyd yn ystyried y perygl y byddai diwylliant o feio yn achosi pryder ac ofn gwallau wrth gynhyrchu deunydd i gefnogi gwleidyddion. Gallai hyn hefyd ymestyn i randdeiliaid ac ymgyrchwyr, gan eu gwneud yn amharod i ddarparu deunydd briffio i wleidyddion oherwydd ofn cael eu cyhuddo o dwyll eu hunain

## Sancsiwn i anghymwyso Aelod

Os caiff cwyn yn erbyn Aelod o'r Senedd ei chadarnhau, caiff y Pwyllgor argymhell un neu fwy o sancsiynau fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r rhain yn cynnwys

gwahardd o drafodion y Senedd am gyfnod penodol a/neu dynnu hawliau a breintiau penodol yn ôl. Ar hyn o bryd, ni all y Pwyllgor argymhell diswyddo Aelod.

Mae'n rhaid i'r Senedd drafod unrhyw adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor, a phenderfynu a ddylid rhoi unrhyw sancsiynau a argymhellir ar waith. Ar hyn o bryd, gwneir penderfyniadau o'r fath trwy fwyafrif syml.

### 31. A ddylai fod gan y Pwyllgor y pŵer i argymhell sancsiynau diswyddo neu adalw Aelod o'r Senedd?

Gallwn weld rhywfaint o werth i'r Pwyllgor gael pwebau estynedig o argymhell sancsiynau cryfach ond byddem yn ailadrodd, er mwyn osgoi gwleidyddion yn dylanwadu'n ormodol, y byddai'n ddoeth cynnwys aelodau lleyg ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad fel sy'n bodoli yn San Steffan ar hyn o bryd.

Byddem hefyd yn awgrymu cyflwyno safonau disgwyliedig ar gyfer pleidleisiau rhydd pan fydd y Senedd yn mynd ati i gynnal y bleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar y sancsiwn a argymhellir, unwaith eto er mwyn atal hwn rhag dod yn fater gwleidyddol amlwg.

Yn yr un modd, byddai gwahardd y defnydd o'r chwip ar gyfer y mathau hyn o bleidleisiau yn y Cyfarfod Llawn yn atal senario Owen Paterson rhag digwydd yn y Senedd.

### 32. A oes unrhyw sancsiynau eraill a ddylai fod ar gael i'r Pwyllgor?

Rydym yn gweld gwerth yn y sancsiynau a ddefnyddir mewn sefyllfaeodd lle nad yw safonau uniondeb yn cael eu diwallu'n gyson ar draws y DU. Byddai eglurder cyn etholiadau / tymhorau seneddol ynghylch pa sancsiynau sydd ar gael a sut y gellid eu gweithredu yn ddefnyddiol o safbwyt cyfiawnder naturiol ac yn bodloni safonau tryloywder.

Os cyflwynir sancsiynau ychwanegol, byddem yn annog ymgynghoriad eang er mwyn sicrhau bod canlyniadau nas rhagwelwyd yn cael eu datgelu.